

# Diweddariadaur wythnos o WCVA

## 3 Mehefin 2019

Helo a chroeso i'r cylchlythyr wythnos yma.

Rhwydweithio cymdeithasol arlein yw'r prif sgîl y dylai mudiadau trydydd sector ei feistrolï yn 2019. Erbyn hyn, dyma'r ffordd orau o feithrin brand eich elusen, codi arian a chynnal ymgyrchoedd cyllido torfol, a chyrraedd a denu rhagor o bobl at eich achos - i gyd fwy neu lai am ddim heblaw am ychydig o amser ac ymroddiad ychwanegol. [Gall ein cwrs cyfryngau cymdeithasol dangos chi sut.](#)

Mae gwirfoddolwyr y Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol (RVS) yn gweithio'n agos gyda thimau clinigol i wella canlyniadau i gleifion hŷn. Mewn wardiau ysbytai maent yn rhoi help llaw mewn sesiynau ymarfer corff a chadw'n heini ac yn y gymuned maent hefyd yn cefnogi gwasanaeth ataliol sy'n canolbwyntio ar faeth, llesiant corfforol a chysylltedd cymdeithasol. [Darllenwch eu stori yma.](#)

Diolch am ddarllen, fe welwn ni chi wythnos nesaf.

## Cyllid diweddaraf

### Grant Datblygu Chwaraeon Cymru

Mae grant rhwng £1,501 a £25,000 ar gael i brosiectau sy'n sefydlu timau chwaraeon newydd, yn datblygu cyfleusterau hyfforddi newydd neu'n prynu offer mawr eu hangen.

### Sefydliad Waterloo

Mae rhwng £5,000 - £25,000 ar gael i fudiadau o dan y categorïau Gofal Cymru, Cymru'n Gweithio ac Addysgu Cymru.

### Ymddiriedolaeth Elusennol CLA

Gall grwpiau ymgeisio am gyllid sy'n hybu tri amcan yr Ymddiriedolaeth.

## Newyddion gwirfoddoli

### Y Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol – gwirfoddolwyr yn gwneud byd o les i gleifion hŷn

Mae gwirfoddolwyr y Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol (RVS) yn gweithio'n agos gyda thimau clinigol i wella canlyniadau i gleifion hŷn.

## Cyfrannu i llesiant cenedlaethau'r dyfodol

Sut y gall y sector gwirfoddol gyfrannu at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol? Ewch i un o'r tudalennau mwyaf poblogaidd ar ein gwefan i ddarganfod popeth sydd angen i chi ei wybod!

## Hyfforddiant a digwyddiadau

### **Cyflwyniad i ddiogelu yn y trydydd sector (Cymru)**

Cyfle i ddysgu am arfer diogelu da yng nghyd-destun y trydydd sector

[25 Mehefin 2019, Caerdydd](#)

### **Y cyfryngau cymdeithasol i'r trydydd sector**

Meithrin eich brand arlein drwy ddysgu i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i ennyn diddordeb

[09 Gorffennaf 2019, Casnewydd](#)

## Polisi a prosiectau

### **Galw am enwebiadau: Llwyddiannau gwrthsefyll**

Mae Fforwm Sifil Ewrop wedi lansio galwad am enwebiadau ar gyfer yr adroddiad/cylchgrawn nesaf ar fywyd sifil yn yr UE.

### **Ymgynghoriadau'r wythnos hon**

Edrych ar ofal parhaus i blant a phobl ifanc.